
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY



# Pecyn Gweithgareddau Pasg 2021

## Yr Her Gollwng Wy

Allwch chi gynllunio ac adeiladu rhywbeth a fydd yn atal wy rhag torri pan gaiff ei ollwng o uchder?

Noder y dylid gwneud y gweithgaredd hwn y tu allan ac o dan oruchwyliaeth oedolyn.

Cewch ddefnyddio pensil, pren mesur, siswrn, a 3 yn unig o'r deunyddiau o'r rhestr isod:

- Papur
- Carton Wyau
- Balŵn
- Balwnau Dŵr
- Papur Swigod
- Berfa
- Cardfwrdd
- Tap Selo
- Powdr Cwstard wedi'i Gymysgu â Dŵr
- Pysgnau Pacio (Packing Peanuts)
- Ewyn Eillio
- Bandiau Rwber
- Bag Cario Plastig
- Llinyn
- Maneg Olchi Llestri
- Potel Ddiod Wag
- Hen Orchudd Gobennydd
- Tyweli Papur

**Y Rheolau**

- Mae'n rhaid i'r wy fod yn amrwd - os nad ydych chi eisiau defnyddio wy, efallai y gallech ddefnyddio balŵn dŵr yn lle hynny?
- Mae gennych 30 munud i gynllunio ac adeiladu eich amddiffynnydd wy - gosodwch amserydd.
- Mae'n rhaid i'r wy (neu'r balŵn dŵr) gael ei ollwng
- Dim ond y deunyddiau a restrwyd y cewch eu defnyddio
- Mae'n rhaid i oedolyn cyfrifol ollwng yr wy
- Mae'n rhaid i chi olchi eich dwylo bob tro ar ôl cyffwrdd wy amrwd

**Yr Arbrawf**

Dylech ofyn i oedolyn wneud hyn i chi. Mae'n rhaid i'r wy gael ei ollwng o uchder, yn ddelfrydol o ffenestr llawr cyntaf. Gwnewch yn siŵr nad oes perygl i neb gael eu taro yn ystod yr arbrawf. Byddwch yn llwyddiannus os na wnaeth yr wy dorri na gollwng/diferu.

**Cwestiynau**

1. *Pam wnaeth/na wnaeth yr amddiffynnydd wy weithio yn eich barn chi?*
2. *Sut y gallech fod wedi gwella eich cynllun heb newid deunyddiau? Pam?*
3. *Pa ddeunyddiau fyddech chi'n eu defnyddio pe baech yn gwneud yr arbrawf eto? Pam?*